

# Rhentu Doeth Cymru

## Rent Smart Wales



## Rhentu Doeth Cymru

### Gofynion Hyfforddiant Trwyddedu: Canllawiau i Ymgeiswyr

2019



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

# CYNNWYS

| <b>Rhif yr Adran</b> | <b>Enw'r Adran</b>                                  |
|----------------------|---|
| 1                    | Cyflwyniad  |
| 2                    | Nod y ddogfen hon                                   |
| 3                    | Diben y Canllawiau?                                 |
| 4                    | Beth yw statws y Canllawiau Ail-drwyddedu hwn?      |
| 5                    | Pwerau / gofynion deddfwriaethol ar gyfer trwyddedu |
| 6                    | Gofynion hyfforddiant ail-drwyddedu                 |
| 7                    | Beth mae DPP yn ei olygu?                           |
| 8                    | Beth fydd maes llafur/cynnwys y cwrs ar gyfer DPP?  |
| 9                    | Gweithio gyda Rhanddeiliaid                         |
| 10                   | Sylwadau a chwynion                                 |
| 11                   | Adolygu a Monitro                                   |

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion hyfforddiant ar gyfer landlordiaid ac asiantau er mwyn cael eu trwyddedu i ymgymryd â gweithgareddau gosod a/neu reoli mewn anheddau rhent domestig yng Nghymru. Dyfernir a chyflwynir y drwydded a'r hyfforddiant gan Gyngor Caerdydd fel yr Awdurdod Trwyddedu Sengl (ATS) o dan Ran 1 o [Ddeddf Tai \(Cymru\) 2014](#). Gyda'i gilydd, gelwir y bartneriaeth a'r gwasanaeth yn Rhentu Doeth Cymru (RhDC). Mae darparwyr hyfforddiant allanol hefyd yn gallu darparu hyfforddiant, os ydynt wedi gwneud cais am, ac wedi cael awdurdodiad hyfforddiant a chymeradwyaeth cwrs oddi wrth RhDC.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion a osodir ar landlordiaid ac asiantau er mwyn bodloni'r safon hyfforddiant ofynnol ar gyfer cais llwyddiannus ar gyfer trwydded. Bydd hyn yn sicrhau y cyflawnir dull cyson ar gyfer pob cais a ystyrir gan RhDC ac, o ganlyniad, bydd arferion rheoli yn y sector rhent preifat yng Nghymru yn gwella. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo dysgu'n barhaus heb roi baich rhy drwm ar landlordiaid, asiantau rheoli a thenantiaid.

Wrth ddatblygu'r dull hwn, mae ymgynghori wedi digwydd gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Fodd bynnag, croesewir adborth pellach bob amser gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Ystyrir unrhyw welliannau a awgrymir mewn adolygiadau yn y dyfodol.

Wrth fabwysiadu'r dull hwn, mae RhDC yn bwriadu chyflawni a sicrhau mynediad at hyfforddiant yn gyson ac yn deg, beth bynnag fo'r amgylchiadau. Ni chaiff penderfyniadau eu dylanwadu gan ryw, anabledd, iaith, ethnigrwydd, crefydd, credoau gwleidyddol na chyfeiriadedd rhywiol y cynrychiolydd.

Mae RhDC am ei gwneud hi'n hawdd i chi dderbyn ein gwybodaeth. Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein [gwefan](#), ac ar ffurf copi caled. Hefyd, gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau eraill gan gynnwys tâp sain, print bras ac mewn ieithoedd cymunedol. Gallwn ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu pan fo angen. Dylid cyfeirio ceisiadau ar gyfer fformatau eraill neu ieithoedd eraill at:

Rhentu Doeth Cymru,  
Blwch Post 1106  
Caerdydd.  
CF11 1UA

**Diwygiad 1.1 Dyddiedig 18.02.21**

## 2. Nod y ddogfen hon

Nod RhDC yw ymdrechu i sicrhau bod pob landlord ac asiant sydd ynghlwm wrth y gwaith o reoli eiddo rhent preifat yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth er mwyn gwella safonau a rheolaeth y sector a diogelu buddiannau tenantiaid yn well.

Cyfrifoldeb RhDC yw sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 gan sicrhau fod landlordiaid eiddo rhent yng Nghymru wedi eu cofrestru a bod

landlordiaid ac asiantau sy'n hunan-reoli wedi eu trwyddedu. Mae Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud cais am drwydded fod wedi ymgymryd â hyfforddiant cymeradwy. Rhaid i unrhyw gyflogai i'r ymgeisydd, sy'n ymwneud â gosod a rheoli eiddo, ymgymryd â hyfforddiant cymeradwy hefyd.

Yn y pen draw ein pwrpas yw sicrhau bod y sector rhent preifat yn gweithredu'n effeithiol gan gynnig lle diogel i denantiaid fyw. Bydd yr hyfforddiant a ddarparwn ac a gymeradwywyd gennym yn rhoi dealltwriaeth i landlordiaid ac asiantau o'u rhwymedigaethau cyfreithiol a hefyd awgrymiadau arfer gorau wrth osod a rheoli eiddo.

### **3. Diben y Canllawiau**

Diben y ddogfen hon yw sefydlu lleiafswm safonau RhDC o safbwynt hyfforddiant er mwyn trwyddedu landlordiaid ac asiantau a rhoi arweiniad i'r rhai y mae'n effeithio arnynt, yn enwedig landlordiaid ac asiantau rheoli.

Bydd staff RhDC yn cymhwyso'r canllawiau hyn wrth brosesu a chymeradwyo ceisiadau am drwyddedau. Bydd y canllawiau hyn yn destun monitro / adolygu o bryd i'w gilydd.

### **4. Beth yw statws y ddogfen gofynion hyfforddiant trwyddedu hon?**

Mae'r ddogfen hon wedi'i mabwysiadu yn unol â threfniadau cyfansoddiadol Cyngor Caerdydd ac fe'i cymeradwywyd gan Benaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru ar 7 Rhagfyr 2018

### **5. Pwerau / gofynion deddfwriaethol ar gyfer trwyddedu**

Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu bennu gofynion mewn perthynas â hyfforddiant (yn unol â 19(3) (a) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Rheoliad 4 o Reoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant) (Cymru) 2015.

Rhaid pennu hyfforddiant mewn perthynas â:

- a) rhwymedigaethau statudol landlord a thenant;
- b) y berthynas gcontract rhwng landlord a thenant;
- c) rôl asiant sy'n gwneud gwaith gosod neu waith rheoli eiddo;
- ch) arfer gorau wrth osod a rheoli anheddau sy'n amodol ar, neu'n cael eu marchnata neu a gynigir i'w gosod o dan denantiaeth ddomestig;
- d) rôl landlord sy'n cyflawni gweithgareddau gosod neu weithgareddau rheoli eiddo; a
- dd) unrhyw ofynion eraill mewn perthynas â hyfforddiant y mae'r awdurdod o'r farn bod angen ei gynnwys mewn cwrs hyfforddiant cymeradwy.

Felly, er mwyn cael trwydded, rhaid i landlordiaid, asiantau ac unrhyw bersonau cysylltiedig fod wedi cwblhau naill ai cwrs hyfforddiant gyda Rhentu Doeth Cymru a fydd yn cwmpasu'r cynnwys gofynnol a nodir ym mhwyntiau a i dd uchod, neu fel arall cwrs sydd wedi'i gymeradwyo gan Rentu Doeth Cymru ac a ddarperir gan ddarparwr hyfforddiant allanol awdurdodedig. Unwaith eto, bydd y cyrsiau hyn yn bodloni'r cynnwys lleiaf a nodir uchod.

Nodir y maes llafur a gymhwyswyd i gwrs sy'n addas ar gyfer cais am drwydded gychwynnol a wedi bod ar waith ers 23<sup>ain</sup> Tachwedd 2015 a bydd yn parhau i fod yn briodol ar gyfer ceisiadau cyntaf.

Rhaid cwblhau hyfforddiant o fewn blwyddyn cyn y dyddiad y cyflwynwyd y cais.

## 6. Gofynion Hyfforddiant Ail-drwyddedu

Mae opsiynau hyfforddiant ychwanegol ar gael i landlordiaid ac asiantau er mwyn bodloni'r gofynion hyfforddiant yn ystod y cam ail-drwyddedu. Mae'r hyblygrwydd ychwanegol hwn ar gael i gydnabod y ffaith bod ymgeiswyr wedi dilyn y cwrs undydd o'r blaen.

Nodir yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer adnewyddu'r drwydded isod:

- a) naill ai'r cwrs trwyddedu gwreiddiol (ystafell ddosbarth neu ar-lein) i'w gwblhau o fewn cyfnod o flwyddyn cyn dyddiad cyflwyno'r cais, neu,
- b) modiwl cwrs ail-drwyddedu (ystafell ddosbarth neu ar-lein) i'w gwblhau o fewn cyfnod o flwyddyn cyn dyddiad cyflwyno'r cais, neu,
- c) cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) cymeradwy i'w cwblhau dros y cyfnod o 5 mlynedd cyn dyddiad cyflwyno'r cais. Rhaid cyflawni o leiaf 60 pwynt o DPP ar gyfer trwydded landlord ac 80 pwynt o DPP am drwydded asiant

Mae rhai cyrsiau ar gael mewn ystafell ddosbarth a rhai ar-lein. Gall landlordiaid ac asiantau ddewis y math neu'r dysgu sy'n addas iddynt. Gellir cwblhau dysgu'n llawn ar-lein, neu mewn amgylchedd ystafell ddosbarth neu gymysgedd o'r ddau.

Gellir gwneud hyfforddiant naill ai drwy gyrsiau Rhentu Doeth Cymru neu gyfuno cyrsiau Rhentu Doeth Cymru â chyrsiau darparwyr allanol lle maent ar gael.

Efallai y bydd rhai cyrsiau ar-lein ar gael yn rhad ac am ddim a gall rhai arwain at gost i'r cynrychiolydd. Bydd pob cwrs ar-lein ac ystafell ddosbarth a ddarperir gan Rentu Doeth Cymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Pan fo trwyddedeion yn dewis cwblhau DPP i'w hail-drwyddedu, rhaid ymdrin ag isafswm o bwyntiau a phynciau craidd.

## 7. Beth mae DPP yn ei olygu?

Mae cyrsiau DPP yn rhoi cyfle i landlordiaid ac asiantau gael mwy o hyblygrwydd ynglŷn ag amseru, pynciau a'r amgylchedd cyflenwi ar gyfer yr hyfforddiant, o gymharu â'r cwrs trwyddedu 1 diwrnod. Mae hyn yn galluogi landlordiaid / asiantau i deilwra eu hyfforddiant i'w hanghenion busnes ac unigol penodol ac i ddysgu'n fanylach am lawer am bynciau penodol.

Mae rhai elfennau o DPP yn orfodol, gellir dewis elfennau eraill yn seiliedig ar ddi-ddordeb unigol / angen busnes.

Mae DPP yn seiliedig ar bwyntiau a ddyfernir gan yr Awdurdod Trwyddedu Sengl yn ystod cam cymeradwyo'r cwrs.

Penderfynir ar nifer y pwyntiau yn dilyn asesiad swyddogion gan roi sylw i:

- Faes llafur a bennwyd ymlaen llaw
- Amser a gymerwyd yn y digwyddiad
- Dull cwblhau (ystafell ddosbarth neu ar-lein ac ati)
- A yw asesu yn rhan annatod o'r cwrs
- Perthnasedd y pwnc i amcanion RhDC

Dyfernir nifer uwch o bwyntiau lle ystyrir bod cyrsiau'n orfodol a/neu'n fwy buddiol i amcanion RhDC.

Mae'r egwyddor sylfaenol o fynediad teg i bawb yn berthnasol i'n trefniadau hyfforddiant, cymerir camau i sicrhau nad yw pobl dan anfantais oherwydd yr opsiynau sydd ar gael. Mae adborth a fyddai'n gwella ein gwasanaeth yn hyn o beth bob amser i'w groesawu.

## 8. Pa gyrsiau DPP sydd ar gael??

Gallai cyrsiau DPP priodol gynnwys y canlynol (ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain):

- Gofynion deddfwriaethol newydd e.e. Deddf Rhentu Cartrefi
- Cyfraith ganolradd ar gyfer landlordiaid ac asiantau
- Deddf Tai 2004
- Tai Amlfeddiannaeth a gofynion trwyddedu / rheoli
- Addas i Bobl Fyw Ynddo a'r System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai
- Contractau
- Ystyriaethau cyn Gosod
- Meddiannu
- Cyflwyno Rhybuddion
- Diogelwch Tân
- Diogelwch Trydanol
- Diogelwch Nwy
- Asesu Risg Clefyd y Llengfilwyr
- Lleithder a Llwydni
- Treth (gan gynnwys; enillion cyfalaf, incwm, y dreth gyngor ac ati)
- Effeithlonrwydd Ynni
- Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Mathau o denantiaeth
- Cytundebau Tenantiaeth - Eu Sefydlu
- Dosbarth Meistr Blaendal Tenantiaeth
- Stocrestrau

- Rhent
- Diwygio Lles a'r Credyd Cynhwysol
- Cyfleustodau (Cyflenwad dŵr, nwy a thrydanol)
- Cyfeirio a Fetio Tenantiaid
- Gwarantwyr
- Newid Telerau'r Denantiaeth
- Dod â thenantiaeth i ben
- Gwahaniaethu Anghyfreithlon
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Diogelu Data
- Cadw Cofnodion
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gyfraith tai (Asiantau a Landlordiaid)
- Rheoli Ôl-ddyledion Rhent
- Marchnata eich Gosodiadau
- Rhwymedigaethau Trwsio
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Rheoli lleoedd myfyrwyr
- Hyfforddiant Arbenigol
- Cyfraith yr Asiantaeth ar gyfer asiantau gosod
- Eraill i'w penderfynu gan y CLG, yn ôl y gofyn (newidiadau mewn deddfwriaeth a/neu geisiadau gan landlordiaid / asiantau)
- Cod Ymarfer
- Telerau Tenantiaeth
- Cefnogi tenantiaid sy'n agored i niwed

## 9. Gweithio gyda Rhanddeiliaid

Mae RhDC wedi sefydlu strwythur Ymgynghoriad Rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid trwy'r fforwm hwn ac eraill a chroesawn argymhellion i wella'r modd y rheolwn ein gwasanaeth.

Gall rhanddeiliaid a darparwyr hyfforddiant allanol eraill wneud ceisiadau i Rentu Doeth Cymru i gymeradwyo eu cyrsiau a dod yn ddarparwyr hyfforddiant awdurdodedig wrth ddarparu'r cwrs ail-drwyddedu a hefyd gyrsiau DPP.

## 10. Sylwadau a chwynion

Ymdrechwn i gynnig gwasanaeth o safon uchel. Fodd bynnag, mae gweithdrefn gwyno ffurfiol ar gael i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn am y gwasanaeth er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phryderon yn gyflym ac yn gyson. Gellir gwneud cwynion yn bersonol, yn ysgrifenedig, drwy e-bost neu trwy ddefnyddio'r ffurflen ymholiad ar-lein. Cewch ragor o wybodaeth am ein Polisi Cwynion yn:

<https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library/>

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch gweithrediad y canllaw hwn at Rentu Doeth Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd yn y cyflwyniad i'r canllaw hwn.

Ar dro, mae'n bosib y gall un o'n 22 awdurdod lleol partner fod yn fwy priodol i ymchwilio, o dan eu Polisi Cwynion eu hunain. Os dyma'r achos byddwn yn cynghori'r cwsmer a chyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol dan sylw er mwyn darparu ymateb priodol.

Weithiau ni fydd eich pryder neu'ch cwyn yn cael ei drin trwy'r Polisi Cwynion, mae enghreifftiau'n cynnwys:

- apêl yn erbyn penderfyniad 'wedi'i wneud yn iawn' a wnaed gan y Cyngor
- modd i geisio newid deddfwriaeth neu benderfyniadau 'a wnaed yn iawn'
- penderfyniadau lle mae hawl ar wahân i apelio neu adolygu, e.e. trwy Dribiwnlys Eiddo Preswyl

## 11. Adolygu a Monitro

Caiff y Canllawiau hyn eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â Phenaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru

Fersiwn 1.1 Dyddiedig 18.02.21